Rhif: **WG18789**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk



Llywodraeth Cymru

## Dogfen Ymgynghori

# Gweledigaeth ar gyfer strategaeth gwaith ieuenctid genedlaethol newydd i Gymru 2013–2018

Dyddiad cyhoeddi: **18 Mehefin 2013**
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn **16 Medi 2013**

# Gweledigaeth ar gyfer strategaeth gwaith ieuenctid genedlaethol newydd i Gymru 2013–2018

**Trosolwg**

Mae'r ddogfen ymgynghori hon yn egluro cynnig Llywodraeth Cymru ynghylch gweledigaeth newydd ar gyfer gwaith ieuenctid fel rhan o Wasanaethau Ieuenctid yng Nghymru. Mae'r cynigion yn berthnasol i ddarparwyr Gwasanaethau Ieuenctid statudol a gwirfoddol ar gyfer pobl ifanc rhwng 11 a 25 oed.

**Sut i ymateb**

Dylid e-bostio/postio ymatebion i'r ymgynghoriad hwn i'r cyfeiriad isod i gyrraedd erbyn **16 Medi 2013** fan hwyraf.

**Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig**

**Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.**

Mae'r dogfennau ymgynghori ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn www.cymru.gov.uk/ymgyngoriadau

**Manylion cysylltu**

I gael rhagor o wybodaeth:
Cangen Cymorth a Chanllawiau Ieuenctid
Yr Adran Addysg a Sgiliau
B3 Front
Llywodraeth Cymru
Sarn Mynach
Cyffordd Llandudno
LL31 9RZ

e-bost: YmgynghoriadGwasanaethCenedlaethol@cymru.gov.uk

Ffôn: 0300 062 5224

© Hawlfraint y Goron 2013
WG18789

## Diogelu data

### Sut y byddwn yn defnyddio'r farn a'r wybodaeth a roddwch inni

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgyngoriadau ar gyfer y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn wedi'u cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig i ni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn i ni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

## Cynnwys


**Rhagair y Gweinidog** **1**

**Cyflwyniad** **3**

**Cyd-destun polisi** **5**

**Heriau strategol** **7**

**Ble’r ydym arni yn awr** **8**

Darparu’r Gwasanaeth Ieuenctid 8
Lefelau ariannu ar hyn o bryd i gefnogi darpariaeth y Gwasanaeth Ieuenctid 8

**Ein gweledigaeth ar gyfer newid** **10**

Thema 1: Darparu Addysg 10
Thema 2: Meithrin Gallu 13
Thema 3: Atebolrwydd a Chanlyniadau 15
Strwythur ariannu newydd arfaethedig 17

**Atodiad A: Dyraniadau'r Grant Gwasanaeth Ieuenctid Statudol ar gyfer 2013–14** **18**

Meini prawf Grant Refeniw’r Gwasanaeth Ieuenctid 18

**Atodiad B: Fframwaith Ymgysylltu â Datblygu Ieuenctid** **19**

## Rhagair y Gweinidog



Rwyf wedi gweld y gwahaniaeth y gall gwaith ieuenctid o safon ei wneud i bobl ifanc ac i gymunedau ac rwy'n eithriadol o falch o'r gwaith a wneir gan y Gwasanaeth Ieuenctid statudol a'r Gwasanaeth Ieuenctid gwirfoddol. Rwy'n sylweddoli bod gan waith ieuenctid o safon rôl hanfodol i'w chwarae'n cyflawni llawer o amcanion Llywodraeth Cymru.

Gall gwaith ieuenctid effeithiol feithrin gallu a gwytnwch pobl ifanc. Mae gan y Gwasanaethau Ieuenctid hanes cryf o ddenu pobl ifanc i ymgymryd â gweithgareddau cadarnhaol sy'n gyfranogol, ac yn eu grymuso a'u hannog. Drwy ddysgu sydd heb fod yn ffurfiol a dysgu anffurfiol sy'n hybu eu datblygiad personol a chymdeithasol, bydd y Gwasanaethau Ieuenctid yn helpu pobl ifanc i ddatblygu'r sgiliau a'r cryfderau y bydd eu hangen arnynt yn oedolion. Bydd y Gwasanaethau Ieuenctid yn mynd ati mewn ffordd wahanol i addysg ffurfiol sy'n cynnig cysylltiad i bobl ifanc sy'n eu haddysgu, yn eu herio ac sydd hefyd yn hwyl.

Mae angen gweld y Gwasanaethau Ieuenctid ledled Cymru yn wasanaeth strategol, yn hytrach nag yn agwedd ar wasanaeth hamdden neu'n wir yn wasanaeth pan fydd pethau wedi mynd i'r pen. Rwyf am gryfhau gwerth a statws gwaith ieuenctid fel gwasanaeth ac fel proffesiwn.

Rwyf am i'r Gwasanaethau Ieuenctid estyn allan at bob person ifanc a chynnig ystod benodol o gyfleoedd i ddatblygu drwy waith ieuenctid, gan gynnwys: gwirfoddoli; gwaith prosiect, gweithgareddau awyr agored; y cyfle i gael achrediadau sy'n cael eu cydnabod yn genedlaethol; a chyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n mynd â'r person ifanc i amgylcheddau newydd y tu allan i'w cymunedau eu hunain.

Ochr yn ochr â'r cynnig hwn, rwyf hefyd am sicrhau bod pobl ifanc sy'n debygol o ymddieithrio oddi wrth addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth yn cael y flaenoriaeth sydd ei hangen arnynt. Rwyf am i'r Gwasanaethau Ieuenctid fod yn bartner cysylltiedig sylweddol a strategol yn ein hymgyrch i ymgysylltu'n frwd â'r holl bobl ifanc sydd mewn addysg, hyfforddiant a chyflogaeth, a'u cefnogi.

Gellir a dylid disgwyl i Wasanaethau Ieuenctid sydd wedi'u grymuso ddangos sut y maent yn ychwanegu gwerth go iawn i fywydau pobl ifanc yn genedlaethol. Mae'r ddogfen ymgynghori hon yn sôn am fy ngweledigaeth a'm blaenoriaethau ar gyfer gwaith ieuenctid a ddarperir gan y Gwasanaethau Ieuenctid yng Nghymru. Cynigiaf y dylid seilio hyn ar dair thema.

Mae a wnelo'r thema gyntaf 'Darparu Addysg' â chryfhau'r berthynas strategol rhwng y Gwasanaethau Ieuenctid ac addysg ffurfiol yn genedlaethol. Rwyf am weld y Gwasanaethau Ieuenctid yn cael eu cysoni'n llwyr â'r gwasanaethau addysg ehangach. Bwriedir i'r cynigion yn yr ymgynghoriad hwn ategu a chyfeirio ffocws y Gwasanaeth Ieuenctid er mwyn iddo fod ac er mwyn iddo gael ei weld yn gyfrannwr o bwys at wella canlyniadau addysgol, ledled a gydol oes i bobl ifanc. Rwyf am i ddarparwyr Gwasanaethau Ieuenctid chwarae rhan allweddol yn cynorthwyo pobl ifanc i barhau'n llwyddiannus i ymwneud â'u haddysg a'u hyfforddiant ffurfiol ac i

gamu ymlaen drwy hynny. Er mwyn galluogi'r newid hwn, sylweddolaf fod angen i Lywodraeth Cymru roi canllawiau clir a gosod disgwyliadau clir ar gyfer cyflawni yn y maes hwn yn y dyfodol.

Mae'r ail thema 'Meithrin Gallu' yn mynd i'r afael â'r angen am well perthynas strategol rhwng y Gwasanaeth Ieuenctid statudol (yn yr awdurdodau lleol) a gwaith sefydliadau yn y Gwasanaeth Ieuenctid gwirfoddol. Rwy'n gwerthfawrogi cyfraniad y ddau sector drwy Gymru ac yn credu bod gan y naill sector a'r llall arbenigedd ac adnoddau sy'n cyfrannu at wella ansawdd bywydau pobl ifanc. Mae'n hanfodol cael gwell cydlynu, cynllunio a meithrin gallu rhwng y rheini sy'n gweithredu yn y Gwasanaethau Ieuenctid statudol a gwirfoddol er mwyn sicrhau'r cyfleoedd mwyaf posibl ar gyfer darparu Gwasanaethau Ieuenctid o safon. Rwyf wedi ymrwymo i ddefnyddio dylanwad Llywodraeth Cymru er mwyn galluogi a chryfhau gwaith partneriaeth effeithiol rhwng y Gwasanaethau Ieuenctid statudol a'r rhai gwirfoddol drwy Gymru.

Yn olaf, mae fy nhrydedd thema 'Atebolrwydd a Chanlyniadau' yn rhoi sylw i'r angen i gryfhau gallu'r sector i ddangos eu dylanwad. Rwy'n sylweddoli nad peth syml yw hyn oherwydd bod union natur y cymorth a'r ddarpariaeth yn aml yn golygu nad ydynt yn bethau rhwydd eu mesur. Mae'n hanfodol deall perfformiad a chanlyniadau'n well heb fiwrocratiaeth feichus. Mae angen targedu buddsoddiad Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau un, ac felly, rwy'n bwriadu defnyddio'r strategaeth newydd er mwyn rhoi camau mesur perfformiad a mecanweithiau atebolrwydd ar waith a fydd o gymorth i adnabod arferion da. Mae'r gwaith hwn yn hanfodol er mwyn sicrhau'r gwerth gorau a hefyd er mwyn sicrhau bod y Gwasanaethau Ieuenctid yn wasanaeth darparu strategol go iawn yng Nghymru.

Rwy'n eich gwahodd i roi'ch syniadau am y cynigion sydd yn y ddogfen hon a byddaf yn eu croesawu. Bydd eich cyfraniad yn help i sicrhau y bydd y strategaeth gwaith ieuenctid iawn ar waith gennym i gefnogi hawliau a haeddiant pob person ifanc yng Nghymru.

**Leighton Andrews AC**
**Y Gweinidog Addysg a Sgiliau**

## Cyflwyniad

Seilir cymeriad unigryw a nodedig gwaith ieuenctid ar y berthynas wirfoddol rhwng pobl ifanc a gweithwyr ieuenctid. Yn y ddogfen *Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ar gyfer Gwaith Ieuenctid* (2012), gwelwyd mai prif bwrpas gwaith ieuenctid yw:

> ‘galluogi pobl ifanc i ddatblygu mewn ffordd gyfannol, gan weithio gyda hwy i hybu eu datblygiad personol, cymdeithasol ac addysgol, i'w galluogi i feithrin eu llais a chwarae rhan mewn cymdeithas a chyrraedd eu potensial llawn.’

Mae gwaith ieuenctid addysgol da sydd heb fod yn ffurfiol yn cynnig ymyriadau brwd ar gyfer pob person ifanc a'i bwrpas yw darparu amgylcheddau effeithiol lle y gall pobl ifanc ddysgu a datblygu. Gall gwaith ieuenctid chwarae rhan bwysig yn arfogi ac yn helpu pobl ifanc i lwyddo yn eu haddysg ffurfiol. Mae gwaith ieuenctid yng Nghymru yn cynnig cyfleoedd dysgu sydd yn addysgol, yn fynegiannol, yn gyfranogol, yn gynhwysol ac yn rymusol[1].

Serch hynny, mae'n bwysig ceisio gwella'n barhaus. Pan werthuswyd *Strategaeth Genedlaethol ar gyfer y Gwasanaeth Ieuenctid yng Nghymru* (2007–2011)[2], casglwyd bod y strategaeth wedi cynnig fframwaith eang ar gyfer datblygiad parhaus y Gwasanaethau Ieuenctid. Yn y gwerthusiad, codwyd sawl her ac argymhelliad ac mae'r rheini wedi cael eu hystyried wrth ddatblygu'r strategaeth hon. Roedd y rhain yn cynnwys:

- datblygu a chyflwyno Safonau Cenedlaethol newydd ar gyfer gwaith ieuenctid
- sicrhau llai o amrywiadau lleol yn y gwariant y pen ar bobl ifanc er mwyn hybu cyfle a darpariaeth gyfartal
- datblygu strategaethau ar gyfer y Gwasanaeth Ieuenctid yn lleol sy'n adlewyrchu'r weledigaeth genedlaethol ar gyfer y Gwasanaeth Ieuenctid
- cynyddu cyfran y gweithwyr ieuenctid sydd wedi ennill cymhwyster hyd at lefel Broffesiynol y Cydbwyllgor Negodi[3], gan gynnwys y rheini yn y sector gwirfoddol
- rhannu arferion da o ran cynnwys pobl ifanc yn y broses benderfynu ar lefel leol
- gwella'r cysylltiadau strategol rhwng sefydliadau addysg uwch a Phrif Swyddogion Ieuenctid

---

[1] *Youth Work in Wales: Principles and Purposes* (Saesneg yn unig) (CLILC, 2013) www.wlga.gov.uk/addysg-materion-diwylliannol-a-hamdden-publications/gwaith-ieuenctid-yng-nghymru-egwyddorion-a-dibenion

[2] *Evaluation of the National Youth Service Strategy for Wales* (Saesneg yn unig) Arad Research, Ymchwil Cymdeithasol, Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2010. www.wales.gov.uk/topics/educationandskills/publications/researchandevaluation/evaluation/youthservice/?skip=1&lang=cy

[3] JNC: Y Cydbwyllgor Negodi ar gyfer Gweithwyr Ieuenctid a Chymuned yw'r corff sy'n gosod y fframwaith cenedlaethol a ddefnyddir i raddio a thalu swyddi gwaith ieuenctid.

- sicrhau bod systemau rheoli cadarn ar waith i gasglu data am y nifer sy'n manteisio ar y gwasanaeth, canlyniadau a datblygiadau.

Mae'r sylwadau hyn yn cynnig cyfle inni wella'r gwasanaeth hollbwysig hwn.

## Cyd-destun polisi

Mae'r Gweinidog Addysg a Sgiliau wedi ymrwymo yn adroddiad cynnydd 2012 y Rhaglen Lywodraethu i ddiweddaru'r Strategaeth Genedlaethol ar gyfer y Gwasanaeth Ieuenctid. Mae'r ddogfen ymgynghori hon yn cefnogi cyflawni'r ymrwymiad hwn.

Drwy Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000, adran 123(1), cyfarwyddwyd awdurdodau lleol (ALlau) gan Weinidogion Cymru i ddarparu, sicrhau darpariaeth neu gymryd rhan mewn darparu gwasanaethau cymorth ieuenctid. Mae gwasanaethau cymorth ieuenctid yn annog, yn galluogi neu'n cynorthwyo pobl ifanc i:

- gymryd rhan effeithiol mewn addysg a hyfforddiant
- manteisio ar gyfleoedd i gael gwaith cyflogedig
- cymryd rhan effeithiol a chyfrifol ym mywyd eu cymunedau.

Mae'r Gwasanaethau Ieuenctid yn gwneud cyfraniad pwysig at wasanaethau cymorth ieuenctid.

Yn *Ymestyn Hawliau; cynorthwyo pobl ifanc o 11 i 25 oed yng Nghymru – Cyfarwyddyd a Chanllawiau Gorffennaf 2002* (2002)*,* rhoddwyd sylfaen statudol a chyfarwyddiadau i'r Gwasanaeth Ieuenctid yng Nghymru am y tro cyntaf. Roedd yn dweud, yng nghyd-destun gwaith ieuenctid, bod 'addysg anffurfiol' yn cyfeirio at broses ddysgu lle bydd pobl ifanc yn ymgysylltu'n wirfoddol â gwasanaethau sy'n eu galluogi i gymryd rhan mewn ystod eang o brofiadau a gweithgareddau sy'n hybu eu datblygiad personol a chymdeithasol. Nod *Ymestyn Hawliau; cynorthwyo pobl ifanc o 11 i 25 oed yng Nghymru – Cyfarwyddyd a Chanllawiau Gorffennaf 2002* oedd codi ein disgwyliadau a'n dyheadau i'n holl bobl ifanc, a chau'r bwlch rhwng y mwyaf a'r lleiaf breintiedig.

Yn *Ymestyn Hawliau; cynorthwyo pobl ifanc o 11 i 25 oed yng Nghymru – Cyfarwyddyd a Chanllawiau Gorffennaf 2002,* mae gan holl bobl ifanc Cymru yr hawl sylfaenol i gael pobl yn ymgynghori â nhw, i gael cyfrannu at y broses benderfynu, ac i gael llais, a hynny ar bob mater sy'n ymwneud â nhw neu sy'n effeithio ar eu bywydau. Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn cefnogi'r hawl hon. Mae'n rhoi set o hawliau cynhwysfawr i blant a phobl ifanc. Mae erthygl 12 yn cefnogi hawl pobl ifanc i fynegi eu barn yn rhydd ym mhob mater sy'n effeithio arnynt. Cymryd rhan yn frwd yn y broses benderfynu yw un o egwyddorion sylfaenol gwaith ieuenctid, gan sicrhau bod pobl ifanc wrth wraidd llunio gwasanaethau ac yn cyfrannu mewn ffordd allweddol at hynny.

Nod Strategaeth Ieuenctid yr UE (2010–18) *An EU Strategy for Youth – Investing and Empowering,* yw cynnig mwy o gyfleoedd a chyfleoedd cyfartal i bobl ifanc ym maes addysg ac yn y farchnad lafur. Mae'n ceisio annog pobl ifanc i fod yn ddinasyddion brwd a chymryd rhan mewn cymdeithas. Mae'r strategaeth yn cynnig cynlluniau mewn wyth maes gweithredu: addysg a hyfforddiant; cyflogaeth ac entrepreneuriaeth; iechyd a lles; cymryd rhan; gweithgareddau gwirfoddol; cynhwysiant cymdeithasol; ieuenctid a'r byd; a chreadigrwydd a diwylliant. Mae'r

dyheadau ar gyfer rhoi hyn ar waith yn cynnwys sicrhau bod y canlynol yn gefn i'r strategaeth:

- sylfaen dystiolaeth ar gyfer polisïau ieuenctid – rhaid i'r holl bolisïau fod wedi'u seilio ar dystiolaeth, profiad a gwybodaeth gadarn am sefyllfa pobl ifanc
- gwaith ieuenctid – hybu cyfleoedd i bobl ifanc feithrin annibyniaeth a chymwyseddau allweddol megis ymdeimlad o fenter ac entrepreneuriaeth, ac i gymryd rhan yn frwd ym mhob maes o fywyd cyhoeddus (cymdeithasol, gwleidyddol, addysgiadol, chwaraeon, gwasanaeth).

Nod Cyngor Ewrop yw datblygu ledled Ewrop egwyddorion cyffredin a democrataidd sydd wedi'u seilio ar y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol a thestunau cyfeirio eraill ynghylch gwarchod unigolion. Ymhlith eu blaenoriaethau ar gyfer polisïau a gweithredu ym maes ieuenctid 2008 (*"Agenda 2020"),* mae'r canlynol: Hawliau dynol a democratiaeth; Cyd-fyw mewn cymdeithasau amrywiol; a Chynhwysiant cymdeithasol i bobl ifanc. Mae polisïau ieuenctid Ewrop yn ceisio sicrhau bod pob person ifanc yn ymdoddi'n llwyddiannus i'w gymdeithas ac maent yn dal i fynd ar drywydd amcanion sicrhau bod pobl ifanc yn gallu cael gafael ar addysg a hyfforddiant o safon, gwaith ac amodau byw da, yn ogystal â datblygu'r amgylchiadau i'w galluogi i gyfrannu at ddatblygiad cymdeithas. Credwn fod y cynigion ar gyfer gwaith ieuenctid yng Nghymru yn yr ymgynghoriad hwn yn ategu cyflawni'r agenda Ewropeaidd ehangach hon.

Yng Nghymru, mae Gweinidogion yn poeni bod yr ystadegau ar gyfer nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant na chyflogaeth wedi parhau'n ystyfnig o uchel ers yn rhy hir. O fewn y Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid, mae Gweinidog wedi ymrwymo i wella cydlynu'r cymorth sydd ar gael i bobl ifanc a sicrhau bod pobl ifanc yn cael y cyngor, yr wybodaeth a'r canllawiau sydd eu hangen arnynt i lywio drwy'r ystod o ddarpariaeth a chymorth sydd ar gael a chael gafael arni. Mae manylion llawn y fframwaith yn www.wales.gov.uk/topics/educationandskills/skillsandtraining/youthengagement/?lang=cy

Ym mis Medi 2013, cyhoeddir cynllun gweithredu cenedlaethol, er mwyn i bob rhanddeiliad ddatblygu cynllun cyflawni effeithiol, a hwnnw i'w gydlynu ar lefel leol. Argymhellir y dylai ALlau ddefnyddio'r Gwasanaethau Ieuenctid yn brif chwaraewr ym maes gwaith ieuenctid a'u bod yn gyfrifol am gynorthwyo i wireddu'r Fframwaith ledled Cymru.

## Heriau strategol

Roedd *Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2011/12* Comisiynydd Plant Cymru yn cydnabod bod gwaith ieuenctid yn cynorthwyo pobl ifanc i sylweddoli beth yw eu hawliau ac i'w deall. Roedd yr adroddiad yn tynnu sylw at bryderon y gallai symud tuag at wasanaethau cyfannol sy'n canolbwyntio ar y teulu olygu bod pobl ifanc hŷn yn cael eu gadael ar ôl. Roedd yn pwysleisio hefyd ei bod hi'n bryd diweddaru'r strategaeth ieuenctid yng Nghymru er 2010. Galwodd y Comisiynydd Plant ar Lywodraeth Cymru i fynd i'r afael â'r oedi hwn[4].

Wrth ddatblygu'r ymgynghoriad hwn, un o'r negeseuon clir a chyson a gafwyd gan randdeiliaid oedd y dylai Llywodraeth Cymru sicrhau eglurdeb a ffocws o ran y disgwyliadau a'r dyheadau a bennir ar gyfer y Gwasanaethau Ieuenctid. Mae nifer o heriau strategol y mae'r cynigion yn yr ymgynghoriad hwn yn ceisio mynd i'r afael â nhw. Mae’r rhain yn cynnwys:

- sicrhau bod gan waith ieuenctid statws a rôl ochr yn ochr ag addysg ffurfiol
- cysylltu â chanfyddiadau Ewropeaidd ynghylch cydnabod a dilysu addysg sydd heb fod yn ffurfiol ac addysg anffurfiol
- cyfrannu at wella lefelau ymgysylltu a datblygu pobl ifanc
- cryfhau'r sylfaen dystiolaeth i ddangos dylanwad ac i ategu atebolrwydd
- sicrhau'r ystod o ddarpariaeth mynediad-agored a darpariaeth wedi'i thargedu er mwyn ymgysylltu ag ystod eang o bobl ifanc i'w galluogi i dyfu a datblygu
- meithrin arferion effeithiol rhwng y sector statudol a'r sector gwirfoddol
- coleddu modelau darparu newydd er mwyn ehangu cyfranogaeth
- sicrhau bod arian grant uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru yn cael y dylanwad mwyaf posibl.

[4] www.complantcymru.org.uk/cy/rhestr-cyhoeddiadau/ *Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2011/12* (2012).

# Ble'r ydym arni yn awr

## Darparu'r Gwasanaeth Ieuenctid

Bob blwyddyn, bydd Llywodraeth Cymru yn casglu ystadegau am y Gwasanaeth Ieuenctid statudol yng Nghymru. Mae'r ystadegau'n cyflwyno gwybodaeth a gasglwyd am bobl ifanc 11–25 oed sy'n aelodau o'r Gwasanaeth Ieuenctid statudol, yr achrediadau y maent wedi'u cael, y prosiectau y maent yn cymryd rhan ynddynt a gwybodaeth am y gweithlu a materion ariannol. Dyma rai o brif ganfyddiadau Archwiliad y Gwasanaeth Ieuenctid yn 2011/12[5]:

- roedd dros 120,000 o bobl ifanc wedi cofrestru'n aelodau[6] â'r Gwasanaeth Ieuenctid yng Nghymru. Roedd y ffigur hwn yn cynrychioli 21 y cant o'r boblogaeth 11–25 oed yng Nghymru
- cafodd oddeutu 13,400 o bobl ifanc achrediad sy'n cael ei gydnabod yn genedlaethol yn ystod y flwyddyn, sef 11 y cant o aelodau cofrestredig y Gwasanaeth Ieuenctid
- ym mis Mawrth 2012, roedd 961 o reolwyr a staff darparu cyfwerth ag amser llawn y Gwasanaeth Ieuenctid yn gweithio yn ALlau Cymru
- cyfanswm incwm y Gwasanaeth Ieuenctid yn 2011–12 oedd £44.1 miliwn a'r cyfanswm a wariwyd gan y Gwasanaeth Ieuenctid yng Nghymru oedd £43.7 miliwn.

Ar hyn o bryd, ni fydd Llywodraeth Cymru yn casglu ystadegau cymharol ar gyfer y sector gwirfoddol.

## Lefelau ariannu ar hyn o bryd i gefnogi darpariaeth y Gwasanaeth Ieuenctid

Yn 2013–14, cafodd y Gwasanaethau Ieuenctid yr arian a ganlyn gan Lywodraeth Cymru.

- Grant Setliad Refeniw Llywodraeth Leol Cymru (cyfanswm dyraniad Cymru £34.1 miliwn). Grant heb ei neilltuo yw hwn ac ni fwriedir iddo fod yn rhagnodol nac yn darged i ALlau ei gyrraedd.

Mae'r arian ychwanegol a gafwyd gan Gangen Cymorth a Chanllawiau Ieuenctid Llywodraeth Cymru yn cynnwys:

- Grant Refeniw'r Gwasanaeth Ieuenctid (£2.5 miliwn). Caiff y grant hwn ei ddosbarthu drwy'r 22 ALl ar sail fformiwla seiliedig ar anghenion gan

---

[5] Mae'r Datganiad Ystadegol yn www.wales.gov.uk/topics/statistics/headlines/youth2010/121023/?skip=1&lang=cy
Mae rhagor o ddata ar gael gan StatsCymru. www.statswales.wales.gov.uk/ReportFolders/reportfolders.aspx?IF_ActivePath=P,30048

[6] Pobl ifanc sydd wedi cofrestru â'r Gwasanaeth Ieuenctid ac y mae eu henw, eu cyfeiriad a'u dyddiad geni'n hysbys.

fwriadu iddo beidio â bod ynghlwm wrth benderfyniadau lleol. Gweler Atodiad A (ar dudalen 18) am fanylion llawn dosbarthu'r grant hwn yn 2013/14. Gofynnwyd i ALlau gyflwyno cynllun gwaith wedi'i seilio ar feini prawf a oedd yn cysoni'r grant â blaenoriaethau'r Gweinidog o ran ymgysylltu a chyflogaeth pobl ifanc

- Grant Hyfforddi Gwaith Ieuenctid (£491k). Dosberthir y grant hwn i awdurdodau lleol ar sail yr un fformiwla ag a ddefnyddir ar gyfer Grant Refeniw'r Gwasanaeth Ieuenctid. Mae hwn yn cefnogi cyfleoedd datblygu proffesiynol parhaus i weithwyr ieuenctid
- Grant Cyrff Ieuenctid Gwirfoddol Cenedlaethol (£679k). Grant cystadleuol yw hwn sy'n rhoi cyfle i gyrff ieuenctid gwirfoddol cenedlaethol gael arian i wireddu prosiectau a fydd yn effeithio ar ddatblygu sgiliau pobl ifanc a'u sgiliau ar gyfer gwaith. Daw'r rownd grantiau bresennol i ben ym mis Mawrth 2015
- Grant Cyngor Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol Cymru (CWVYS) (£104k). Mae'r grant hwn yn darparu arian craidd er mwyn i CWVYS allu bod yn llais ar ran ei aelodau, cyrff ieuenctid gwirfoddol cenedlaethol a lleol, eu cynrychioli a'u cefnogi.

# Ein gweledigaeth ar gyfer newid

Yng ngoleuni'r heriau strategol, credwn y dylid seilio'r Strategaeth Gwaith Ieuenctid Cenedlaethol ar gyfer Cymru newydd, yn ogystal â'i drefn ariannu, ar dair thema graidd strategol, sef:

Thema 1: Darparu Addysg
Thema 2: Meithrin Gallu
Thema 3: Atebolrwydd a Chanlyniadau.

## Thema 1: Darparu Addysg

### Cynnig 1: Cysoni darpariaeth y Gwasanaeth Ieuenctid er mwyn ategu blaenoriaethau addysg

Yn anffodus, credwn fod diffyg parhaus o ran cydnabod gwerth gwaith ieuenctid a ddarperir gan y Gwasanaethau Ieuenctid o fewn cyd-destun ehangach addysg. Er bod enghreifftiau o arfer da, nid yw'r Gwasanaethau Ieuenctid yn cael eu cydnabod yn gyson yn bartneriaid allweddol gan y rheini sy'n gweithio ym maes addysg ffurfiol. Yn sgil hynny, nid yw'r cysylltiadau rhwng darpariaeth addysg ffurfiol a darpariaeth y Gwasanaeth Ieuenctid wedi'u datblygu ddigon ac maent yn cael eu tanddefnyddio'n genedlaethol. Mae hon yn ddadl ddwy ffordd, wrth gwrs, ac mae dyletswydd glir ar y gwasanaeth i allu dangos ei werth i bartneriaid addysgol allweddol eraill.

Yn aml, bydd rhaniad ffug rhwng addysg sydd heb fod yn ffurfiol ac addysg ffurfiol. Eto i gyd mae llawer iawn o orgyffwrdd rhyngddynt a photensial enfawr i'r naill ategu'r llall. Mae gwaith ymchwil wedi dangos y gall ymarfer gwaith ieuenctid wella presenoldeb pobl ifanc yn yr ysgol, eu hymddygiad, eu cymhelliant a'u perthynas â phobl eraill. Hefyd, fe all profiadau dysgu y tu allan i'r ystafell ddosbarth hybu ymgysylltu a llwyddo yn yr ysgol[7]. Gwyddom fod rhai ysgolion ledled Cymru yn cydnabod manteision Gwasanaethau Ieuenctid a'r dulliau a ddefnyddir ym maes gwaith ieuenctid.

Credwn fod angen datblygu rôl a statws y rheini sy'n gweithio yn y Gwasanaethau Ieuenctid. Mae proffesiynoldeb a hygrededd gweithwyr ieuenctid yn hollbwysig er mwyn i hynny fod yn sail ar gyfer perthynas gryfach â darparwyr addysg ffurfiol. Nod y cynigion isod yw sbarduno'r agenda proffesiynoleiddio ac arfogi'r rheini yn y gwasanaeth i weithredu ar sail gydradd ag eraill sy'n cefnogi ac yn addysgu pobl ifanc.

---

[7] *The Contribution of Non-formal Learning to Young People's Life Chances: Learning from Evidence* (NYA a'r Fabian Society, 2008).

Felly, cynigiwn:

- y dylai'r Gwasanaethau Ieuenctid weithio mewn partneriaeth â'r holl ysgolion uwchradd, gan gynnwys ysgolion cyfrwng Cymraeg, i gefnogi ymgysylltu â phobl ifanc a'u datblygiad
- bod dylanwad gwaith ieuenctid mewn (a chydag) ysgolion yn cael ei werthuso'n annibynnol erbyn mis Rhagfyr 2017
- y gosodir targed i gynyddu nifer y gweithwyr ieuenctid sydd â chymhwyster gwaith ieuenctid a gydnabyddir gan y Cydbwyllgor Negodi
- y bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i hybu a chefnogi hyfforddiant proffesiynol o safon uchel ac iddo gydnabyddiaeth genedlaethol i weithwyr ieuenctid.

**Cynnig 2: Cyfraniad y Gwasanaethau Ieuenctid Statudol i'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid**

Rydym yn ffodus bod pobl ifanc mewn sawl ardal yng Nghymru yn gallu manteisio ar ystod eang o wasanaethau cymorth o safon. Eto i gyd, i rai pobl, mae'n bosibl bod y gwasanaethau hyn yn teimlo'n ddigyswllt ac yn anodd llywio o'u cwmpas. Ar lefel unigol, i grwpiau penodol o bobl ifanc, mae'n hanfodol sicrhau cymorth ac ymgysylltu parhaus. Mae hyn yn arbennig o wir lle bydd pobl ifanc yn straffaglu i setlo ar lwybr addysg a hyfforddiant clir neu'n wynebu heriau mwy cymhleth.

Roedd Adroddiad Bwrdd Cyflogaeth a Sgiliau Cymru, *Symud Ymlaen: Y Sylfeini ar gyfer Twf (Mai 2010),* yn argymell y dylid rhoi rôl gryfach o lawer i'r Gwasanaeth Ieuenctid o ran brwydro yn erbyn ymddieithrio. Credwn fod y Gwasanaeth Ieuenctid mewn lle da, ond nad yw eto wedi'i rymuso na'i gyfarwyddo'n llawn, i chwarae rôl ganolog yn gwireddu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i hybu cynnydd ym maes ymgysylltu a datblygu ieuenctid.

Credwn y dylai cymorth cyson fod ar gael i'r bobl ifanc hynny sydd yn ymddieithrio oddi wrth addysg ffurfiol, neu y mae perygl sylweddol iddynt wneud hynny. Teimlwn fod y Gwasanaeth Ieuenctid mewn lle da i gyflawni rôl o'r fath ar gyfer y bobl ifanc hyn. Rhaid gweld y cymorth a roddir gan y Gwasanaethau Ieuenctid yn y cyd-destun hwn yn rhan o gontinwwm cymorth sy'n ymestyn o raglen Teuluoedd yn Gyntaf a dulliau cysylltiedig y Tîm o Amgylch y Teulu. Ceir disgrifiad manwl o'r rôl hon yn Atodiad B (ar dudalen 19).

Felly, cynigiwn:

- y dylai Gwasanaethau Ieuenctid awdurdodau lleol gefnogi rôl ganolog wrth gyflawni'r swyddogaeth frocera gan 'weithiwr arweiniol' fel rhan o gyflawni'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid ehangach
- y dylid datblygu canllawiau a phrotocolau rhannu gwybodaeth i gefnogi'r gwaith rhwng y Gwasanaeth Ieuenctid a chyrff eraill (megis Gyrfa Cymru) erbyn haf 2014.

**Cynnig 3: Darparu addysg sydd heb fod yn ffurfiol ac addysg anffurfiol**

Mae gan y Gwasanaethau Ieuenctid rôl bwysig i'w chwarae'n cefnogi ymrwymiad Llywodraeth Cymru i helpu pawb i gyflawni eu potensial, i leihau anghydraddoldeb, ac i wella lles economaidd a chymdeithasol. Drwy addysg sydd heb fod yn ffurfiol ac addysg anffurfiol, gall pobl ifanc feithrin hyder a hyfedredd, datblygu hunan-gred a chael cyfle i ddatblygu disgwyliadau a dyheadau mawr ar eu cyfer nhw eu hunain. Bydd cyfle iddynt hefyd feithrin sgiliau megis cyfathrebu, datrys problemau a gwaith tîm, sydd i gyd yn sgiliau y bydd cyflogwyr yn rhoi gwerth mawr arnynt.

Mae'n bwysig dathlu a chydnabod llwyddiant ac mae'n hanfodol bod y Gwasanaethau Ieuenctid yn parhau i gynnig cyfleoedd achredu cenedlaethol. Gall ennill achrediad alluogi pobl ifanc i weld eu llwyddiannau, a'u hysbrydoli â hyder a hunan-gred. Wrth ennill achrediad, bydd ganddynt brawf o'r sgiliau y maent wedi'u meithrin a bydd hynny'n rhoi hygrededd iddynt.

Mae gan y Gwasanaethau Ieuenctid rôl allweddol o ran creu a chefnogi cyfleoedd i bobl ifanc:

- gymryd rhan mewn cymdeithas a chael llais
- datblygu eu sgiliau Cymraeg a'u hymwybyddiaeth o ddiwylliant Cymru
- datblygu ffordd gadarnhaol a phwrpasol iach o fyw sy'n arfogi pobl ifanc â'r gallu meddyliol a chorfforol i ddatblygu, ymgysylltu a chyfrannu
- cymryd rhan mewn addysg gan gymheiriaid.

Felly, cynigiwn:

- y dylai'r Gwasanaethau Ieuenctid geisio ymestyn cyfleoedd i bobl ifanc sicrhau achrediadau cenedlaethol
- y dylai'r Gwasanaethau Ieuenctid roi'r cyfle i bobl ifanc ddefnyddio a datblygu eu sgiliau Cymraeg a chodi ymwybyddiaeth o werth diwylliant Cymru
- y dylai'r Gwasanaethau Ieuenctid barhau i feithrin perthynas â'r gwasanaethau iechyd er mwyn hybu canlyniadau iechyd a lles cadarnhaol.

## Thema 2: Meithrin Gallu

### Cynnig 4: Gwaith partneriaeth

Mae angen cryfhau'r berthynas rhwng y Gwasanaethau Ieuenctid gwirfoddol a'r rhai statudol, a hynny'n lleol ac yn genedlaethol, a chydlynu cynnig lleol gan y Gwasanaeth Ieuenctid sy'n diwallu anghenion pobl ifanc. Er mwyn datblygu ystod eang o wasanaethau hygyrch o safon i bobl ifanc, credwn fod angen gwella'r berthynas rhwng y sector statudol a'r sector gwirfoddol. Rydym am greu cyd-destun lle bydd y Gwasanaethau Ieuenctid statudol a gwirfoddol yn cael eu hannog yn frwd i weithio mewn partneriaeth go iawn er mwyn sicrhau cydweithio a llif rhwydd rhwng darpariaeth mynediad-agored a darparu gwasanaethau cymorth mwy arbenigol sydd wedi'u targedu.

Credwn y bydd cryfhau'r berthynas hon yn help i feithrin gallu, i leihau dyblygu ac i alluogi gwasanaethau'n well i gael eu hadeiladu a'u darparu ar sail anghenion pobl ifanc. Bydd hefyd yn help i Wasanaethau Ieuenctid gwirfoddol gyfrannu at y blaenoriaethau cenedlaethol a phartneru â'r llywodraeth ar lefel ganolog a lleol.

Felly, cynigiwn:

- drwy eu hariannu, bod ALlau yn cael eu cyfarwyddo i weithio gyda'r Gwasanaeth Ieuenctid gwirfoddol er mwyn meithrin gallu'r Gwasanaethau Ieuenctid yn strategol ar sail leol
- mewn partneriaeth â'r Gwasanaethau Ieuenctid, bydd Llywodraeth Cymru yn datblygu cytundeb lefel gwasanaeth gofynnol. Argymhellir y dylai'r Gwasanaeth Ieuenctid gwirfoddol a'r Gwasanaeth Ieuenctid statudol ei ddefnyddio er mwyn egluro rolau a disgwyliadau
- bod ALlau yn datblygu cynllun gwaith blynyddol sy'n dangos yr hyn sydd ganddynt i'w gynnig i bobl ifanc trwy gyfrwng y Gwasanaeth Ieuenctid statudol a'r Gwasanaeth Ieuenctid gwirfoddol ar y cyd.

### Cynnig 5: Datblygu porth 'rhithiol' ar gyfer y gwasanaeth ieuenctid

Mae sut y bydd pobl ifanc yn dewis cael gafael ar wybodaeth, cymdeithasu a rhyngweithio'n newid. Credwn fod angen cryfhau'r dulliau traddodiadol a ddefnyddir i ddarparu Gwasanaethau Ieuenctid drwy ddatblygu gwasanaethau newydd sy'n seiliedig ar y we neu ddyfeisiau clyfar. Er bod angen bod yn ochelgar wrth ddatblygu gwasanaeth newydd sy'n seiliedig ar y we, credwn y bydd methu â gwneud cynnydd yn y maes hwn yn cau'r drws ar gyfleoedd newydd o bwys. Mae enghreifftiau da'n datblygu o arferion da yn Ewrop, megis yn Adran Ieuenctid Dinas Helsinki, a byddwn yn ceisio manteisio ar wersi a ddysgwyd mewn ardaloedd eraill wrth inni ddatblygu'r gwasanaethau hyn yng Nghymru. Gellir defnyddio arfau ar-lein i ategu darpariaeth bresennol y Gwasanaethau Ieuenctid, i helpu i gyrraedd cynulleidfa ehangach ac i ymgysylltu â'r bobl hynny sy'n amharod neu'n analluog i gymryd rhan mewn gweithgareddau mwy traddodiadol sy'n 'seiliedig ar ganolfan'.

Mae pobl ifanc wedi dangos bod dulliau negeseua preifat yn ddewis poblogaidd ganddynt ar gyfer cael cymorth ac yn ffordd o gael gwybodaeth a chyngor. Dywedodd MEIC Cymru fod mwy na 65 y cant o'r rhai sy'n cysylltu â'r gwasanaeth yn dod ato drwy wasanaeth negeseua yn y fan a'r lle a negeseuon testun[8].

Er mwyn darparu gwasanaeth effeithiol i ddefnyddwyr ac er mwyn sicrhau gwerth am arian, credwn y bydd angen i unrhyw gynnig 'rhithiol' newydd gysylltu â gwasanaethau perthnasol sydd eisoes ar gael ar-lein, megis CLICarlein[9], MEIC[10] a GyrfaCymru Arlein. Bydd angen iddo fod ar gael hefyd ar ffonau clyfar.

Felly, cynigiwn:

- bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda phartneriaid i ystyried gwerth Gwasanaeth Ieuenctid rhithiol a'r rôl y gallai ei chwarae yng Nghymru.

## Cynnig 6: Gwella'r ffordd o weithio gyda'r cyrff ieuenctid gwirfoddol cenedlaethol

Rydym am ystyried y ffordd orau o gefnogi cyrff ieuenctid gwirfoddol cenedlaethol a'u helpu i gyfrannu at flaenoriaethau Llywodraeth Cymru. Yn ogystal â hynny credwn fod cyfleoedd i gryfhau eto'r cysylltiadau â gwasanaethau ieuenctid mewn lifrai. Wrth wneud hynny, sylweddolwn fod y rhain yn gyrff annibynnol y byddwn yn eu gwahodd ac yn eu hannog i gydweithio â ni ar yr agenda er budd pobl ifanc.

Yn draddodiadol, mae'r Gwasanaethau Ieuenctid gwirfoddol wedi cael cymorth i hybu cydweithredu ac i alluogi'r sector i ddatblygu llais cryfach ar y cyd. Yn y dyfodol, rydym yn awyddus i sicrhau gwerth am arian ac i weld llais y Gwasanaethau Ieuenctid yn cael ei gynrychioli'n effeithiol ledled Cymru.

Felly, cynigiwn:

- fod Llywodraeth Cymru yn cynnig cyfleoedd ariannu 'craidd' a chyfleoedd ariannu 'wedi'u targedu/ar gyfer prosiectau' i gyrff gwaith ieuenctid gwirfoddol cenedlaethol (gweler yr adran ariannu)
- o 2014 ymlaen, byddwn yn cyflwyno trefniadau newydd i ymgysylltu â'r Gwasanaeth Ieuenctid gwirfoddol, a hwyluso deialog ag ef.

---

[8] *Adroddiad ar Gyfryngau Cymdeithasol* (Saesneg yn unig) i Wasanaeth Ieuenctid Caerdydd, ProMo-Cymru 2012.
[9] Mae CLICarlein yn cynnig gwybodaeth, newyddion a chyngor i bob person ifanc 11 i 25 oed yng Nghymru.
[10] MEIC yw'r gwasanaeth llinell gymorth i blant a phobl ifanc hyd at 25 oed yng Nghymru.

## Thema 3: Atebolrwydd a Chanlyniadau

### Cynnig 7: Cryfhau'r sylfaen dystiolaeth drwy Fframwaith Canlyniadau a Nod Ansawdd Cenedlaethol

Mae cyfoeth o dystiolaeth storïol sy'n ategu cyfraniad darpariaeth y Gwasanaethau Ieuenctid yng Nghymru a'r gwerth a grëir yn sgil hynny. Fodd bynnag, mae'r amrywiaeth sydd o fewn darpariaeth y Gwasanaethau Ieuenctid, a'r her go iawn sydd ynghlwm wrth fesur dylanwad a chanlyniadau dysgu sydd heb fod yn ffurfiol a dysgu anffurfiol yn dal i'w gwneud hi'n anodd i'r sector gynnig tystiolaeth ynghylch sut mae'n gwireddu'r canlyniadau sy'n flaenoriaeth.

Rydym am i'r Gwasanaethau Ieuenctid allu dangos eu dylanwad yn genedlaethol a phrofi eu bod yn cyfrannu at flaenoriaethau allweddol Llywodraeth Cymru, gan gynnwys gostwng nifer y bobl nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant na chyflogaeth. Credwn y dylid datblygu Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol i asesu gwerth cyfraniad Gwasanaethau Ieuenctid.

Ochr yn ochr â'r Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol, cynigiwn y dylid datblygu Nod Ansawdd ar gyfer Gwasanaethau Ieuenctid i gefnogi datblygu darpariaeth o safon. Mae'n hanfodol bod ymyriadau gwaith ieuenctid o safon sy'n addas at y diben yn cael eu darparu ar gyfer y grwpiau o bobl ifanc y maent yn gweithio gyda nhw. Anaml y bydd ymyriadau da'n arwain at ganlyniadau gwael. Credwn y gallai Nod Ansawdd herio gwasanaethau, codi safonau, a meithrin ymddiriedaeth rhwng y gwasanaethau gwirfoddol a'r gwasanaethau statudol.

Mae gan yr Archwiliad Cenedlaethol y Gwasanaethau Ieuenctid blynyddol rôl allweddol i'w chwarae'n dangos y canlyniadau ar gyfer pobl ifanc ac yn adrodd yn eu cylch. Rydym am i'r Archwiliad Cenedlaethol y Gwasanaethau Ieuenctid ddangos gwir ddylanwad Gwasanaethau Ieuenctid ledled Cymru. Bydd cael sylfaen dystiolaeth gryfach yn hollbwysig er mwyn cael sail ar gyfer y camau y bydd angen eu cymryd i sefydlu Gwasanaeth Ieuenctid sy'n fwy cyson drwy'r wlad i gyd.

Felly, cynigiwn:

- y dylid datblygu Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol a'i roi ar waith erbyn mis Medi 2014
- bod y Grŵp Cyfeirio Gwasanaeth Ieuenctid (gweler Cynnig 9) yn cynghori ynglŷn â datblygu'r Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol
- y dylid rhoi Nod Ansawdd y Gwasanaeth Ieuenctid ar waith erbyn mis Rhagfyr 2014
- y dylid datblygu Archwiliad Cenedlaethol y Gwasanaeth Ieuenctid blynyddol yn arf ar gyfer meincnodi ac adnabod arfer o safon
- y dylid cynnal arolwg annibynnol ar ddylanwad Gwasanaethau Ieuenctid yn 2017/18 yn sail ar gyfer darparu Gwasanaethau Ieuenctid yng Nghymru yn y dyfodol.

.

**Cynnig 8: Datblygu ymgynghoriad ar Ganllawiau Statudol**

Yn 2011/12, tynnodd Archwiliad Cenedlaethol y Gwasanaeth Ieuenctid sylw at y ffaith fod cyllideb graidd y rhan fwyaf o ALlau yn llai na ffigur dangosol y setliad refeniw, a'u bod yn ychwanegu incwm o ffynonellau eraill at y gyllideb graidd hon. Roedd y cyfraniad at gyllidebau Gwasanaethau Ieuenctid craidd ar ben cyfanswm incwm y Gwasanaeth Ieuenctid ledled Cymru yn amrywio o'r naill ALl i'r llall, o 36 y cant yn sir Gaerfyrddin i 106 y cant ym Mhowys. Rydym yn poeni bod yr amrywiadau mawr hyn yn arwain at wahaniaeth cynyddol yn y Gwasanaeth Ieuenctid a gynigir i bobl ifanc. Rydym am archwilio datblygu canllawiau i Wasanaethau Ieuenctid er mwyn egluro'r disgwyliadau o ran y ddarpariaeth a symud tuag at gynnig mwy cyson.

Ar ôl datblygu a chyflwyno'r Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol a datblygu gwaith ar sail yr arfer gorau, byddwn mewn sefyllfa i ddadlau'r achos o blaid cyflwyno canllawiau statudol i ALlau wrth iddynt ddarparu'r Gwasanaeth Ieuenctid statudol yng Nghymru. Credwn y gallai canllawiau statudol fod o gymorth i sicrhau canlyniadau i bobl ifanc a bod y cynnig ledled Cymru'n gynnig o safon ac yn fwy cyson.

Felly, cynigiwn:

- y bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Grŵp Cyfeirio'r Gwasanaeth Ieuenctid (gweler Cynnig 9) er mwyn dwyn ynghyd gyngor ynghylch manteision posibl canllawiau newydd ar gyfer Gwasanaethau Ieuenctid gan ffafrio rhoi'r rheini ar sail statudol.

**Cynnig 9: Arweinyddiaeth, goruchwylio a chyngor**

Credwn nad oes digon o gyfleoedd ar hyn o bryd i Weinidogion Cymru ymgysylltu'n strategol â chynrychiolwyr y Gwasanaethau Ieuenctid. Yn y dyfodol, teimlwn fod angen i'r berthynas rhwng Gweinidogion a rhanddeiliaid fod yn berthynas fwy clos er mwyn sicrhau canlyniadau. Credwn, er mwyn gwireddu'r weledigaeth ar gyfer y Gwasanaethau Ieuenctid, ei bod yn hanfodol ymgysylltu â grwpiau a chyrff allweddol, gan gynnwys cynrychiolwyr y Gwasanaeth Ieuenctid statudol a gwirfoddol, sefydliadau addysg uwch, SOLACE Wales, Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru (CCAC) a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC).

Mae'r strategaeth newydd yn canolbwyntio'n fwriadol ar y cyfraniad y gall Gwasanaethau Ieuenctid ei wneud at addysg a sgiliau pobl ifanc. Rydym yn cydnabod bod Gwasanaethau Ieuenctid yn cyfrannu'n sylweddol at wireddu polisïau a strategaethau eraill Llywodraeth Cymru gan gynnwys; Creu Cymru Egnïol, Entrepreneuriaeth Ieuenctid ac *Iaith fyw: Iaith byw.*

Gall gwaith ieuenctid da fod yn gefn effeithiol i ystod eang o agendâu'r Llywodraeth. Mae llawer o enghreifftiau o waith ieuenctid da mewn lleoliadau amrywiol ac mae cryn le i rannu arferion da o'r fath a'u datblygu eto. Er enghraifft, gall ymarfer gwaith ieuenctid fod yn gefn i ymgysylltu a chydlynu mewn cymunedau ac i sicrhau canlyniadau cadarnhaol o ran iechyd.

Felly, cynigiwn:

- sefydlu Grŵp Cyfeirio'r Gwasanaeth Ieuenctid a fydd yn cynnwys cynrychiolwyr o blith rhanddeiliaid allweddol, ac yn adrodd yn uniongyrchol i Weinidogion ac yn eu cynghori ynghylch rhoi'r Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Gwaith Ieuenctid ar waith erbyn mis Rhagfyr 2013
- sefydlu 'cymunedau arbenigol' i rannu datblygu arfer da gyda golwg ar y strategaeth hon a blaenoriaethau ehangach Llywodraeth Cymru.

## Strwythur ariannu newydd arfaethedig

Yn gefn i wireddu'r strategaeth newydd, bwriadwn gyflwyno strwythur ariannu newydd.

1. **Grant Gwasanaeth Ieuenctid** – o 2014/15 bydd y grant hwn ar gael i ALlau i (i) roi'r strategaeth ar waith o ran meithrin gallu i weithio gyda grwpiau sy'n flaenoriaeth, a (ii) meithrin gallu'r sector gwirfoddol ar lefel leol (gan gynnwys cyfleoedd hyfforddi). Bydd gofyn i ALlau ddangos sut maent yn bwriadu gwneud hyn.
2. **Grant Cyrff Ieuenctid Gwirfoddol Cenedlaethol** – o 2015/16 bydd y grant hwn yn darparu arian craidd ar gyfer cyrff ieuenctid cenedlaethol ar lefel leol a chenedlaethol er mwyn i'r Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol fwrw gwreiddiau, er mwyn gwella ansawdd, datblygu gwaith partneriaeth a denu arian ychwanegol. Grant cystadleuol fydd hwn.
3. **Cymorth i'r Gwasanaeth Ieuenctid gwirfoddol** – o 2014/15 bydd y gronfa hon yn darparu cymorth effeithlon i gyrff ieuenctid gwirfoddol cenedlaethol o ran (i) cymorth proffesiynol, (ii) cymorth fforwm, (iii) cymorth ar gyfer codi arian a (iv) casglu data/datblygu System Gwybodaeth Reoli.
4. **Gweithgarwch prosiect wedi'i dargedu gan gyrff Ieuenctid Gwirfoddol Cenedlaethol** – o 2015/16, cyflwynir grant newydd i roi'r cyfle i gyrff ieuenctid gwirfoddol cenedlaethol ddatblygu a darparu prosiectau sy'n canolbwyntio ar ymgysylltu a datblygu pobl ifanc. Defnyddir yr arian i dreialu cysylltiadau strategol gyda'r nod o gefnogi sgiliau ymgysylltu, datblygu a chyflogaeth.

# Atodiad A: Dyraniadau'r Grant Gwasanaeth Ieuenctid Statudol ar gyfer 2013–14

## Meini prawf Grant Refeniw'r Gwasanaeth Ieuenctid

- Meithrin cysylltiadau mwy clos gydag ysgolion i gefnogi ymgysylltu a datblygu ym mhrif ffrwd addysg.
- Cryfhau gwasanaethau gwybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd i bobl ifanc drwy CLIC.
- Cefnogi brocera gwasanaethau a chymorth i'r rheini sy'n wynebu'r risg fwyaf o ymddieithrio oddi wrth addysg, cyflogaeth a hyfforddiant.
- Cyfrannu at ddyfodol iach i bobl ifanc drwy ddarparu rhaglenni codi ymwybyddiaeth o faterion megis gordewdra, ysmygu, beichiogrwydd ymhlith merched yn eu harddegau, camddefnyddio cyffuriau ac alcohol, hybu gweithgarwch corfforol a/neu fynd i'r afael â'r materion hyn..
- Dangos mwy o ddylanwad ar ddatblygu sgiliau a sgiliau ar gyfer gwaith i bobl ifanc Cymru – (fe all hyn gynnwys cefnogi cyfleoedd hyfforddi/prentisiaethau gwaith ieuenctid).
- Dangos dylanwad ar gynyddu canran/nifer y bobl ifanc sy'n camu ymlaen i addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth.
- Datblygu gwaith trawsffiniol er mwyn darparu gwasanaethau ieuenctid cryfach a rhai sy'n gweithio'n fwy effeithiol.

**Grant Refeniw'r Gwasanaeth Ieuenctid**
Mae'r gyfran hon o'r fformiwla'n seiliedig ar ffigurau poblogaeth 85% (rhwng 11 ac 20 oed) a 15% o blant dibynnol mewn teuluoedd di-waith .

| Awdurdod lleol | Dyraniad sylfaenol | | Cyfran o'r fformiwla | Cyfran % | Cyfanswm y dyraniad |
|---|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn | £25,000.00 | | £40,764.00 | 2.1% | £65,764.00 |
| Gwynedd | £25,000.00 | | £78,640.00 | 4.0% | £103,640.00 |
| Conwy | £25,000.00 | | £65,059.00 | 3.3% | £90,059.00 |
| Sir Ddinbych | £25,000.00 | | £60,570.00 | 3.1% | £85,570.00 |
| Sir y Fflint | £25,000.00 | | £89,877.00 | 4.6% | £114,877.00 |
| Wrecsam | £25,000.00 | | £81,614.00 | 4.2% | £106,614.00 |
| Powys | £25,000.00 | | £76,101.00 | 3.9% | £101,101.00 |
| Ceredigion | £25,000.00 | | £55,796.00 | 2.9% | £80,796.00 |
| Sir Benfro | £25,000.00 | | £73,878.00 | 3.8% | £98,878.00 |
| Sir Gaerfyrddin | £25,000.00 | | £113,217.00 | 5.8% | £138,217.00 |
| Abertawe | £25,000.00 | | £150,631.00 | 7.7% | £175,631.00 |
| Castell-nedd Port Talbot | £25,000.00 | | £87,862.00 | 4.5% | £112,862.00 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | £25,000.00 | | £85,542.00 | 4.4% | £110,542.00 |
| Bro Morgannwg | £25,000.00 | | £81,303.00 | 4.2% | £106,303.00 |
| Rhondda Cynon Taf | £25,000.00 | | £156,997.00 | 8.1% | £181,997.00 |
| Merthyr Tudful | £25,000.00 | | £36,496.00 | 1.9% | £61,496.00 |
| Caerffili | £25,000.00 | | £116,502.00 | 6.0% | £141,502.00 |
| Blaenau Gwent | £25,000.00 | | £47,011.00 | 2.4% | £72,011.00 |
| Torfaen | £25,000.00 | | £58,222.00 | 3.0% | £83,222.00 |
| Sir Fynwy | £25,000.00 | | £52,176.00 | 2.7% | £77,176.00 |
| Casnewydd | £25,000.00 | | £99,308.00 | 5.1% | £124,308.00 |
| Caerdydd | £25,000.00 | | £242,434.00 | 12.4% | £267,434.00 |
| | | | | | |
| Cymru | £550,000.00 | | £1,950,000.00 | | £2,500,000.00 |

## Atodiad B: Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid

Mae chwech elfen i'r Fframwaith.

- Adnabod yn fuan y bobl ifanc hynny y mae perygl iddynt ymddieithrio.
- Gwell brocera er mwyn sicrhau bod y cymorth iawn ar gael i bob person ifanc sydd mewn perygl o'r fath.
- Olrhain pobl ifanc yn well er mwyn sicrhau bod eu cynnydd yn cael ei fonitro er mwyn sylwi'n gyflym os byddant yn digwydd rhoi'r gorau i gwrs neu waith er mwyn ail-ymgysylltu â nhw.
- Darpariaeth sy'n cynnig llwybrau dilyniant clir ym mhob cam.
- Sgiliau ar gyfer cyflogaeth sy'n meithrin dealltwriaeth o fyd gwaith ac yn hybu llwybrau clir at addysg bellach neu uwch a chyflogaeth.
- Atebolrwydd cryfach i ALlau, Gyrfa Cymru, y Gwasanaeth Ieuenctid, ysgolion, colegau AB a darparwyr eraill am ymgysylltu a datblygu pobl ifanc.

I gefnogi elfen 'frocera' y Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid, datblygwyd dwy rôl hanfodol.

Gelwir y cyntaf o'r rhain yn 'Gydlynydd Ymgysylltu a Datblygu'. Ei brif swyddogaeth fydd gweld beth yw anghenion cymorth pobl ifanc a chytuno â phartneriaid pwy sydd yn y lle gorau i ymateb. Mae'r rôl yn golygu defnyddio gwybodaeth a dealltwriaeth am anghenion y bobl ifanc hynny y mae perygl iddynt ymddieithrio (neu sydd wedi ymddieithrio eisoes) er mwyn cael sail ar gyfer trafodaeth a'i chynnal rhwng y prif asiantaethau (ysgolion, colegau, y Gwasanaeth Gyrfaoedd, y Gwasanaethau Ieuenctid, ac ati) i weld beth yw'r trefniadau cymorth mwyaf priodol a'r gofynion. Gan adeiladu ar yr arferion sy'n datblygu mewn rhai rhannau o Gymru, rydym yn rhagweld y caiff y swyddogaeth hon ei chydlynu gan unigolyn sy'n gweithredu ar lefel strategol ar draws ardal awdurdod lleol. Nid yw'r rôl hon yn rhan o'r ymgynghoriad hwn.

Yr ail rôl yw rôl y 'gweithiwr arweiniol'. Bydd y sawl sy'n cyflawni'r swyddogaeth hon yn fan cyswllt ac yn gymorth i bobl ifanc ac yn help i sicrhau bod y cymorth yn arwain at gynnydd go iawn. Os bydd person ifanc mewn addysg neu hyfforddiant, y bwriad yw y bydd y 'gweithiwr arweiniol' yn gweithio mewn partneriaeth â darparwyr perthnasol.

Fe allai'r unigolyn sy'n gwneud y gwaith hwn ddarparu rhai agweddau ar gymorth, ond, yn ei hanfod, bydd yn helpu i sicrhau bod y person ifanc yn cael cymorth i ymgysylltu â gwasanaethau arbenigol a manteisio arnynt. Mae'n bwysig bod y sawl sy'n cyflawni'r rôl hon yn helpu hefyd i asesu a yw'r cymorth a ddarperir yn cael y dylanwad angenrheidiol ynteu a oes gofyn cefnogi'r person ifanc mewn ffordd newydd neu wahanol. Wrth wneud hynny, fe allai'r gweithiwr arweiniol fod yn 'eiriolwr' ar ran pobl ifanc er mwyn sicrhau eu bod yn cael y cymorth angenrheidiol.

Rydym yn rhagweld y bydd angen i'r rheini sy'n cyflawni rôl 'gweithiwr arweiniol' yn y gwasanaeth ieuenctid allu defnyddio system reoli a gwybodaeth Gyrfa Cymru. Bydd data a reolir gan Gyrfa Cymru'n chwarae rhan bwysig yn dynodi ac yn olrhain y rheini y mae perygl iddynt ymddieithrio a disgwylir y bydd lledaenu swyddogaeth y gweithiwr arweiniol yn help i sicrhau gweithio mwy clos a strategol rhwng Gyrfa Cymru a'r Gwasanaethau Ieuenctid ledled Cymru.